**Cofnodion sydd heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd**
**a gynhaliwyd ar 24 Medi 2026**
**Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Elisabeth Evans | (EE) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu iechyd a Sgrinio |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Nathan Jones | (NJ) | Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Materion Corfforaethol |
| Neil Stoodley | (NS) | Pennaeth Cyllid |
| Eleri Davies | (ED) | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Phennaeth Rhaglen HARP |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Huw Williams | (HW) | Pennaeth Parodrwydd ac Ymateb i Argyfyngau |
| **Ymddiheuriadau:** | | |

Heb eu Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Zoe Pietrzak | (ZP) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad |

*Dechreuodd y cyfarfod am **11:34***

| **PHW 2026.09.24/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|

Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r trafodion ar-lein.

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd ffurfiol olaf SG a mynegodd ddiolch diffuant am ei chyfraniad sylweddol at Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gydnabod effaith gadarnhaol ei gwaith a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol. Bu i aelodau eraill gyfleu eu gwerthfawrogiad hefyd.

Nododd CJ mai dyma oedd cyfarfod olaf y Bwrdd PB hefyd a mynegodd ddiolchiadau'r Bwrdd.

**Nododd** y Bwrdd **yr ymddiheuriadau** a restrir uchod.

| **PHW 2026.09.24/2** | **Datganiadau o Fuddiant** |
|---|---|

Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill.

| **PHW 2026.09.24/3** | **Prentisiaethau** |
|---|---|

Cyflwynodd NL ddiweddariad am y rhaglen brentisiaethau a'i chyfraniad at y Strategaeth Pobl 10 mlynedd, cynllunio'r gweithlu a datblygu talent. Ymunodd chwe phrentis ag Iechyd Cyhoeddus Cymru rhwng Rhagfyr 2025 ac Ionawr 2026 ar draws cyfrifeg, gweinyddu busnes, gwasanaethau digidol, rheoli prosiectau a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Roedd adborth cynnar gan brentisiaid a rheolwyr wedi bod yn gadarnhaol, gyda manteision ar gyfer datblygiad unigol, gallu tîm, mentora a dysgu sefydliadol. Roedd y prentisiaid yn derbyn profiadau dysgu strwythuredig, cefnogaeth gan gymheiriaid a chyflogau yn unol ag egwyddorion Cyflog Byw. Yn ogystal, roedd 55 o staff presennol yn ymgymryd â chymwysterau prentisiaeth. Byddai'r cynllun peilot yn cael ei werthuso i asesu profiad, canlyniadau a chynnydd ac i lywio carfanau yn y dyfodol ac ehangu posibl.

Croesawodd KY y rhaglen a'r hyder a'r datblygiad proffesiynol a ddangoswyd gan brentisiaid. Awgrymodd gysylltiadau â llysgenhadon ieuenctid, rhwydweithiau gwirfoddoli a chymunedol, gan gynnwys CGGC, i hyrwyddo cyfleoedd a gyrfaoedd ym maes iechyd y cyhoedd.

Nododd JM fod dysgu o'r rhaglen wedi llywio adnoddau Cymru Iach ar Waith ar gyfer pobl ifanc a chyflogwyr ac wedi cefnogi cysylltiadau cryfach rhwng prentisiaethau, gwirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol.

Heb eu Cadarnhau

Ceisiodd TR eglurhad ar gysylltiadau â chynlluniau cymunedol presennol a thynnodd sylw at gyfleoedd i ddatblygu llwybrau i broffesiynau arbenigol, gan gynnwys microbioleg. Anogodd allgymorth mewn ysgolion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli i godi ymwybyddiaeth o ehangder y gyrfaoedd sydd ar gael o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Pwysleisiodd HD pa mor bwysig yw recriwtio cynhwysol ac ehangu mynediad i grwpiau dan anfantais, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a phobl ag anableddau dysgu. Anogodd ystyried cyflogaeth â chymorth a llwybrau ehangach i fyd gwaith.

Cefnogodd PB y pwyntiau hyn, tynnodd sylw at werth profiad bywyd amrywiol a nododd enghreifftiau o unigolion a oedd wedi symud ymlaen o fewn y sefydliad trwy lwybrau prentisiaeth.

Pwysleisiodd CJ fod hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion Gwaith Teg a gwerth cymdeithasol a'r cyfle i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddylanwadu ar fframweithiau prentisiaeth i ehangu mynediad.

Awgrymodd CP y dylid dadansoddi nodweddion ymgeiswyr i nodi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a llywio recriwtio ac allgymorth wedi'u targedu.

Tynnodd NJ sylw at yr angen i brif ffrydio prentisiaethau ym mhrosesau cynllunio'r gweithlu a dylunio rolau. Nododd y gallai prentisiaid a graddedigion weithredu fel modelau rôl i garfanau'r dyfodol.

Amlinellodd TF waith a wnaed eisoes i ddatblygu llwybrau gyrfa mewn gwyddor fiofeddygol a gofal iechyd ac awgrymodd y dylid hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn ehangach.

Croesawodd NL gefnogaeth y Bwrdd ac adroddodd fod mwy na 350 o geisiadau wedi dod i law am y chwe swydd. Cadarnhaodd fod demograffeg yr ymgeiswyr yn cael eu hadolygu a byddent yn rhan o'r gwerthusiad. Cytunodd i archwilio cyflogaeth â chymorth, cryfhau ymgysylltiad ag ysgolion a grwpiau wedi'u tangynrychioli, ac ystyried ehangu i broffesiynau ychwanegol wrth gynnal cynnig cynaliadwy o ansawdd uchel.

Nododd y Bwrdd y diweddariad a chroesawodd gyfraniad y rhaglen at ddatblygu talent, adnewyddu'r gweithlu a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc. Cytunwyd y dylai'r gwerthusiad lywio trafodaethau yn y dyfodol ynghylch y gweithlu, cydraddoldeb a chynhwysiant drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.

**Cam Gweithredu: NL/LB**

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/4** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **PHW 2026.09.24/4.1** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Cyflwynodd TC Adroddiad y Prif Weithredwr. Diolchodd i PB ac SG am eu harweinyddiaeth, eu harbenigedd a'u cyfraniad yn eu cyfarfod Bwrdd olaf a chydnabu benodiad Meirion Evans i rôl gynghori strategol gyda Chymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ochr yn ochr â'i rôl ym Mhrifysgol Caerdydd.

Amlinellodd TC newidiadau sefydliadol a fydd yn dod i rym o 1 Hydref 2026, gan gynnwys sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Sgrinio Poblogaeth ac Ansawdd o dan CB, trefniadau Diogelu Iechyd diwygiedig ac ail-alinio cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Tynnodd sylw hefyd at ddynodiad yr Uned Genomeg Pathogenau o fewn Consortiwm Fforensig Microbaidd y DU; ymweliad cyfnewid gwybodaeth ryngwladol yn cynnwys arweinwyr

Heb eu Cadarnhau

ymarfer sy'n ystyriol o drawma o Zambia; Cymrodoriaeth Dan Rixon o'r Gymdeithas Cynllunio at Argyfyngau; a chyfarfod cynhyrchiol â Chwaraeon Cymru ar weithgarwch corfforol, gwaith ataliol ac iechyd y boblogaeth. Nododd y Bwrdd hefyd gyhoeddi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a marwolaeth yr Athro Tom Crosby, gan gydnabod ei gyfraniad at wasanaethau canser ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Tynnodd PB sylw at gryfder y bartneriaeth â Chwaraeon Cymru a'r cyfle i ddatblygu mentrau gweithgarwch corfforol lleol llwyddiannus yn rhaglenni cenedlaethol.

Crynhodd SA y Rhaglen Lywodraethu, gan nodi ei phwyslais ar atal, achosion sylfaenol afiechyd, gweithio trawslywodraethol a chanlyniadau. Tynnodd sylw at berthnasedd i strategaeth iechyd y cyhoedd, dileu clefydau heintus, tlodi plant, penderfynyddion ehangach ac ymgysylltiad rhyngwladol a chadarnhaodd y byddai dadansoddiad pellach yn llywio cynllunio strategol.

Croesawodd TR y ffocws parhaus ar Iechyd Cyfunol a'r cyfle i gryfhau ymgysylltiad â phobl ifanc a gweithlu'r dyfodol.

Croesawodd KY y symudiad tuag at waith ataliol ond mynegodd bryderon y trydydd sector nad oedd cymunedau, sefydliadau gwirfoddol, anghydraddoldebau iechyd a grwpiau poblogaeth penodol yn ddigon gweladwy fel partneriaid cyflawni a blaenoriaethau.

Cydnabu TC y pwyntiau a chadarnhaodd y byddai cynlluniau cyflawni Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael â chymunedau, gwaith ataliol, cynhwysiant ac anghydraddoldebau iechyd. Tynnodd JM sylw at waith parhaus gyda phartneriaid ar Cymunedol o'r Cychwyn a chyfraniad y sector gwirfoddol.

Pwysleisiodd PB y dylai Cymunedol o'r Cychwyn a thegwch barhau i fod yn elfennau annatod wrth roi'r rhaglen ar waith.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr ac Adroddiadau'r Gyfarwyddiaeth a chymerodd sicrwydd o'r adroddiadau a'r drafodaeth.

| **PHW 2026.09.24/4.2** | **Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd** |
|---|---|

Cyflwynodd IB y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a oedd yn ymdrin ag iechyd y boblogaeth, canlyniadau, anghydraddoldebau a pherfformiad y system. Arhosodd y dangosyddion cyffredinol yn gymharol sefydlog; fodd bynnag, roedd nifer y plant sy'n cael eu brechu yn is na'r targed, roedd pwysau anadlol wedi lleihau yn llai na'r disgwyl dros yr haf, ac roedd pwysau costau byw yn dal i effeithio ar gymunedau. Roedd dangosyddion marwolaethau, ymddygiadau iechyd a llesiant yn sefydlog ar y cyfan, tra bod anghydraddoldebau parhaus a phwysau economaidd ehangach yn parhau i fod yn amlwg.

Tynnodd TC sylw at y bwlch amddifadedd sy'n ehangu, pwysau'r gaeaf ac effaith tlodi ac anghydraddoldeb incwm ar ganlyniadau iechyd. Gofynnodd pa gamau pellach y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cymryd o ran gwaith ataliol ac anghydraddoldebau. Gofynnodd PB am ystyried effaith newid hinsawdd ar wydnwch y system iechyd drwy'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd gyda'r amseriad i'w bennu drwy raglen waith y Pwyllgor.

**Cam Gweithredu: SA/IB/LB**

Heb eu Cadarnhau

Adroddodd SA am drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gostau bwyd a thanwydd cynyddol a'i ffocws ar wneud y mwyaf o incwm aelwydydd a mynediad at fudd-daliadau. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried negeseuon a chamau gweithredu cydlynol ar gyfer y gaeaf gyda phartneriaid. Pwysleisiodd PB y berthynas rhwng tlodi tanwydd, cartrefi oer ac afiechyd anadlol a'r angen am waith ataliol a chefnogaeth ymarferol. Cadarnhaodd IB rôl y sefydliad wrth ddylanwadu ar bolisi a chynnal ffocws ar ffactorau amddiffynnol, gwaith ataliol a phenderfynyddion ehangach.

Holodd TR ynghylch y nifer is o blant sy'n cael eu brechu yng Nghaerdydd. Dywedodd TF fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi byrddau iechyd drwy becyn cymorth brechu teg, gwyddor ymddygiad a chydweithio â Llywodraeth Cymru. Roedd amrywiad lleol yn cael ei fonitro'n rheolaidd, a chynigiodd ddarparu rhagor o wybodaeth am Gaerdydd y tu allan i'r cyfarfod.

Holodd SG a oedd dangosyddion gofal iechyd gwell yn adlewyrchu gwelliant gwirioneddol a sut roeddent yn cyd-fynd â chanlyniadau iechyd y boblogaeth nad oedd wedi newid rhyw lawer. Esboniodd IB fod y cynnydd yn adlewyrchu gostyngiadau yn yr arosiadau hiraf i raddau helaeth, tra bod pwysau ac anghydraddoldebau ar y system yn parhau. Roedd canlyniadau iechyd y boblogaeth yn newid yn arafach, ac roedd arosiadau hirach yn parhau i fod yn bryder penodol i blant.

Tynnodd JM sylw at werth fframio cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ffactorau amddiffynnol, gan gynnwys gwaith ar dlodi plant, mynediad at hawliau, rheoli pwysau, rhoi'r gorau i ysmygu a hunanreolaeth. Nododd KY rwystrau a grëwyd gan gymhlethdod y system fudd-daliadau ac effaith barhaus gwybodaeth anghywir am frechlynnau, gan bwysleisio pa mor bwysig yw rhwydweithiau cymunedol, gwirfoddol a ffydd y gellir ymddiried ynddynt.

Cwestiynodd TR hefyd gynnydd bach yn y data rhestrau aros. Cadarnhaodd IB fod galw uwch na'r disgwyl yn ystod yr haf wedi cynyddu llwybrau cleifion ac wedi arafu'r gostyngiad tymhorol arferol, er bod perfformiad ar yr arosiadau hiraf wedi gwella.

**Ystyriodd** y Bwrdd y Trosolwg Iechyd y Cyhoedd Diweddaraf a chymerodd sicrwydd o'r wybodaeth a'r drafodaeth. Nododd y ffocws parhaus sydd ei angen ar frechu, gwaith ataliol, anghydraddoldebau, penderfynyddion ehangach a pharatoadau ar gyfer y gaeaf.

| **PHW 2026.09.24/4.3** | **Adroddiad Perfformiad Integredig ac Adroddiadau Cyllid Mis 5** |
|---|---|

Cyflwynodd NJ Adroddiadau Perfformiad a Chyllid Integredig Mis 5.

**Llywodraethu Pobl**

Adroddodd NL welliant bach mewn absenoldeb salwch, er bod absenoldeb hirdymor, yn enwedig straen, pryder ac afiechyd meddwl, yn parhau i fod yn brif achos dyddiau a gollwyd. Roedd cydymffurfiaeth â gwerthuso wedi gostwng ychydig islaw'r targed ac roedd cyfarwyddiaethau'n cymryd camau gweithredu wedi'u targedu. Roedd gwariant yr asiantaeth yn parhau i gael ei adolygu, gan gynnwys cywirdeb codio a chamau gwella.

**Llywodraethu corfforaethol**

Adroddodd PV fod polisïau corfforaethol a chamau gweithredu Cylchlythyr Iechyd Cymru yn parhau ar y trywydd iawn. Parhawyd i fonitro argymhellion archwilio drwy'r traciwr

Heb eu Cadarnhau

archwilio, y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, a oedd hefyd wedi derbyn dau archwiliad mewnol wedi'u cwblhau.

**Ansawdd a llywodraethu gwybodaeth**

Adroddodd CB ostyngiad bach ym mherfformiad ymateb i gwynion, yn bennaf oherwydd sawl achos cymhleth yn gysylltiedig â chanser yr oedd angen ymchwiliad manwl arnynt. Byddai'r Gyfarwyddiaeth Sgrinio Poblogaeth ac Ansawdd newydd yn cryfhau goruchwyliaeth.

Holodd CP a oedd ymholiadau a gynhyrchwyd gan AI yn cyfrannu at gynnydd mewn gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth. Dywedodd CB fod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau mynediad at wybodaeth yn mynd yn hirach ac yn fwy cymhleth, ond roeddent yn llwyddo i ymdopi â'r niferoedd o hyd. Nododd TF fod hon yn duedd ehangach yn y sector cyhoeddus.

Rhybuddiodd KY a PB fod deallusrwydd artiffisial hefyd yn gwella hygyrchedd drwy helpu pobl i fynegi ceisiadau. Tynnodd PV sylw at oblygiadau ar gyfer hyfforddiant a phrosesau staff, tra bod IB wedi pwysleisio pwrpas parhaus deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth wrth gefnogi tryloywder. Nododd y Bwrdd fod sesiwn ar AI wedi'i threfnu ar gyfer datblygiad y Bwrdd ym mis Hydref.

**Sgrinio**

Adroddodd CB berfformiad cymysg. Roedd sgrinio'r fron yn parhau i fod yn destun pryder oherwydd capasiti'r gweithlu a dibyniaeth ar wasanaethau'r bwrdd iechyd, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, er bod amseroedd darllen wedi gwella. Roedd gwaith i adfer y gwasanaeth sgrinio'r coluddion a lleihau'r dagfa yn gwella. Roedd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn parhau i wynebu tagfa yn sgil y pandemig, a phwysau o ran y galw a chapasiti, ac roedd newidiadau i lwybrau, technoleg a modelau gwasanaeth yn cael eu datblygu. Parhaodd sgrinio AAA a newydd-anedig i berfformio'n dda. Croesawodd TC graffu manylach ond tynnodd sylw at yr angen i brofi cynaliadwyedd hirdymor, yn enwedig ar gyfer sgrinio'r fron, ac i wella gweledded y nifer sy'n cael ei sgrinio a'r anghydraddoldebau. Cadarnhaodd CB fod gwaith ar y gweill i ddeall diffyg cyfranogiad ac ailgynllunio llwybrau.

**Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio**

Tynnodd TF sylw at roi'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy newydd ar waith a diolchodd i'r staff am gefnogi'r newid. Roedd adrodd gwyliadwriaeth yn parhau i fod yn is na'r targed. Holodd SG ynghylch amseroedd cwblhau meithriniad gwaed, lle'r oedd yn ymddangos bod oedi cyn i samplau gyrraedd labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd TF fod perfformiad y labordy yn gryf ar ôl i'r samplau gyrraedd a bod yr oedi o ran cludiant a'r llwybrau yn adlewyrchu rhyngwyneb system â byrddau iechyd.

Cefnogodd TC a CB well gweledded o ddata ar lefel y bwrdd iechyd ac ymgysylltiad parhaus i wella'r llwybr o'r dechrau i'r diwedd.

**Iechyd a llesiant**

Heb eu Cadarnhau

Adroddodd JM fod Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru wedi parhau i ragori ar dargedau allweddol amser cyswllt a chyfradd rhoi'r gorau i ysmygu o fewn pedair wythnos, er bod gweithgarwch cronnus ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.

**Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig**

Adroddodd NJ fod tua 85% o'r cyflawniadau yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Roedd cynnydd bach yn y sgorau melyn a choch yn adlewyrchu newid mewnol ac allanol, ac arhosodd y portffolio newid mawr yn felyn.

Gofynnodd CJ am eglurhad ynghylch y cyfyngiadau ariannol; cadarnhaodd NJ a TF fod y rhain yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol a buddsoddiad dewisol, nid gweithgaredd cytunedig heb ei ariannu. Pwysleisiodd SG yr angen i adrodd ar ganlyniadau a manteision yn ogystal â cherrig milltir.

Tynnodd SA, TR, CJ a KY sylw at yr angen i asesu'r ddarpariaeth o safbwynt tegwch, defnyddio gwyddor ymddygiad, gwella data ar anabledd a grwpiau poblogaeth eraill, a dangos yr effaith ar leihau anghydraddoldebau. Cydnabu IB fod cyfyngiadau o ran mynediad at rywfaint o ddata gofal sylfaenol. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ystyried data tegwch, mesurau canlyniadau ac effaith sefydliadol yn fanylach.

**Cam Gweithredu: SA /LB/IB**

**Llywodraethu ariannol**

Adroddodd NS sefyllfa adennill costau ym Mis 5 a rhagwelodd sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd perfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus yn parhau yn uwch na'r targed ac roedd y rhaglen gyfalaf yn unol â'r cynllun. Roedd incwm wedi'i ail-alinio yn dilyn trafodaeth â Llywodraeth Cymru i adlewyrchu gwahaniaethau amseru, ac roedd dadansoddiad pellach ar y gweill i gryfhau sicrwydd ynghylch rhagolygon ac amrywiadau sylfaenol.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o Adroddiadau Perfformiad a Chyllid Integredig Mis 5 a'r drafodaeth.

| **Egwyl** | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/4.4** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |

Cyflwynodd PB yr adroddiad, a oedd yn crynhoi gweithgarwch Pwyllgorau'r Bwrdd ers 30 Gorffennaf 2026.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r gwaith a wnaed gan ei bwyllgorau.

| **PHW 2026.09.24/4.5** | **Diweddariad Modiwl 4 a Modiwl 5 Ymholiad Covid-19** |
|---|---|

Cyflwynodd PV yr eitem. Cyflwynodd HW yr adroddiad ar Fodiwl 4, Brechlynnau a Therapiwteg, a Modiwl 5, Caffael, Ymchwiliad Cyhoeddus y DU i COVID-19.

Amlinellodd HW broses strwythuredig Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer adolygu canfyddiadau'r Ymchwiliad, dyrannu camau gweithredu, cofnodi gwersi a monitro'r ddarpariaeth drwy lywodraethu Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys. Rhannwyd dysgu

Heb eu Cadarnhau

perthnasol ar draws GIG Cymru a rhwydweithiau argyfyngau sifil posibl. Roedd y dull wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol fel arfer da ac wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru. Roedd themâu cyffredin o Fodiwlau 4 a 5 yn cynnwys parodrwydd, gwydnwch, partneriaethau, llywodraethu, data a deallusrwydd, hyder y cyhoedd, a chynnal galluogrwydd rhwng argyfyngau.

Dywedodd TF fod y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraethau'r DU a Chymru ond eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i baratoadau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Atgyfnerthodd Modiwl 4 yr angen i gynnal galluogrwydd brechu a therapïau, partneriaethau ymchwil a chyflenwi, tegwch ac ymgysylltu cymunedol, gwyddor ymddygiad, gwyliadwriaeth, monitro effeithiolrwydd brechlynnau ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Atgyfnerthodd Modiwl 5 yr angen i gynnwys caffael, logisteg a chadwyni cyflenwi mewn cynlluniau ac ymarferion parodrwydd. Roedd angen ymgysylltu'n barhaus â Llywodraeth Cymru i egluro rolau a sicrhau trefniadau cynaliadwy.

Croesawodd CP y ffocws ar leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at frechlynnau a'u defnydd. Pwysleisiodd TC ddull 'pob perygl' sy'n cwmpasu risgiau biolegol, cemegol, radiolegol, niwclear a systemau ehangach a chydnabu arweinyddiaeth tîm Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys.

Gofynnodd TR pa mor drosglwyddadwy oedd yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig i lifogydd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cadarnhaodd HW fod y sgiliau, y strwythurau a'r prosesau a ddatblygwyd trwy gynllunio ar gyfer y pandemig yn berthnasol ar draws argyfyngau a'u bod eisoes wedi cefnogi ymatebion i lifogydd a thywydd garw. Ychwanegodd IB fod galluogrwydd diogelu iechyd cryfach wedi'i gynllunio er mwyn gallu ei ehangu ar draws bygythiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd PB am sicrwydd fod cynlluniau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Cadarnhaodd HW fod cylch adolygu blynyddol, gyda gwersi o ddigwyddiadau, ymarferion a'r Ymchwiliad wedi'u hymgorffori a newidiadau interim sylweddol wedi'u gwneud yn ôl yr angen. Ceisiodd SG sicrwydd ynghylch aliniad ar draws Cymru a'r Pedair Gwlad. Cadarnhaodd HW berthnasoedd cryf â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid iechyd y cyhoedd y DU a thynnodd sylw at rôl arweinyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn rhwydweithiau parodrwydd y Pedair Gwlad.

Diolchodd y Bwrdd i HW a **nododd** yr adroddiad a chanfyddiadau Modiwlau 4 a 5. Cymerodd **sicrwydd** o'r gweithgarwch sefydliadol a oedd yn mynd i'r afael â pharatoadau, brechu teg, caffael, gwydnwch y gadwyn gyflenwi, logisteg, data, technoleg a gweithio mewn partneriaeth, a'r defnydd parhaus o drefniadau llywodraethu sefydledig i ymgorffori dysgu a monitro gwelliant.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/5** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **PHW 2026.09.24/5.1** | **Cofnodion a Chofnod Gweithredu o Gyfarfodydd y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2026** |

**Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2026 fel cofnod cywir.

**Ystyriodd** y Bwrdd y camau gweithredu agored ar y Cofnod Gweithredu a chymeradwyodd gau dau gam gweithredu ar y cofnod.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/5.2** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |

Heb eu Cadarnhau

Cyflwynodd PV yr adolygiad blynyddol o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, Canllawiau Ymddygiad y Bwrdd a Phrotocol ar gyfer Cyfarfodydd Preifat. Roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiwygio i egluro ffynonellau a llwybrau sicrwydd, gweithio trawsbwyllgorau ac uwchgyfeirio i'r Bwrdd. Roedd Canllawiau Ymddygiad y Bwrdd wedi'u haildrefnu i wella defnyddioldeb, cryfhau'r ffocws ar effaith a chanlyniadau, ac egluro y dylai trafodaeth sylweddol ddigwydd yn y cyfarfod yn hytrach na thrwy swyddogaethau sgwrsio. Roedd y Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Preifat wedi'i adolygu i sicrhau bod busnes preifat yn parhau i fod yn gyfiawn a bod tryloywder wedi'i gydbwyso'n briodol â chyfrinachedd. Diolchodd PV i Uned Fusnes y Bwrdd am ei gwaith.

Croesawodd KY y fframwaith cliriach a mwy hygyrch, gan nodi ei fod yn dangos sut roedd y Bwrdd yn cael sicrwydd ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Cytunodd yr aelodau y dylai'r dogfennau gefnogi sefydlu'r Bwrdd.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y fersiynau diwygiedig o'r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Preifat; a
- Canllawiau Ymddygiad y Bwrdd.

| **PHW 2026.09.24/5.3** | **Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo** |
|---|---|

Cyflwynodd PV yr adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Materion sydd wedi'u cadw nôl a'r Pwerau Dirprwyedig a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rheolau Sefydlog enghreifftiol diwygiedig eto, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau ei adolygiad ei hun i gadw'r dogfennau'n gyfredol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwelliannau'n rhai gweinyddol ac yn adlewyrchu newidiadau i strwythurau Llywodraeth Cymru. Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hefyd wedi'i ddiweddaru yn dilyn gwaith effeithiolrwydd llywodraethu, gydag eglurhad penodol o awdurdod a chyfrifoldebau dirprwyedig o fewn y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **cymeradwyodd** y Rheolau Sefydlog a'r Materion sydd wedi'u cadw nôl a'r Pwerau Dirprwyedig;
- **cymeradwyodd** y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Materion sydd wedi'u cadw nôl a'r Pwerau Dirprwyedig;
- **cymeradwyodd** Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor a ddaw i rym ar 1 Hydref 2026; a
- **dirprwyodd** awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r aelodaeth o ganlyniad i'r cyfrifoldebau portffolio diwygiedig a gofynion y pwyllgor.

| **PHW 2026.09.24/5.4** | **Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a Hyrwyddwyr y Bwrdd** |
|---|---|

Cyflwynodd PV yr adolygiad blynyddol o aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a rolau Hyrwyddwr y Bwrdd. Eglurodd y gallai fod angen newidiadau yn dilyn penodiadau i'r Bwrdd ac ymadawiadau a chynigiodd roi awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd gymeradwyo'r newidiadau hyn. Cynigiwyd Hyrwyddwr Bwrdd newydd ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, gyda CP wedi'i nodi fel yr arweinydd. Trafododd yr aelodau rôl yr Hyrwyddwr Atal a Rheoli Heintiau, a fyddai'n parhau'n wag tra bo eglurhad yn cael ei gyflwyno, a'r berthynas rhwng rolau hyrwyddwr a gwrando ar bobl. Tynnodd PV sylw hefyd at y trefniadau indemniad ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **Cymeradwyodd** aelodaeth arfaethedig y Pwyllgorau a rolau Hyrwyddwr y Bwrdd;
- **Nodwyd** y byddai'r trefniadau'n dod i rym o 1 Hydref 2026; a
- **Nodwyd** yr indemniad a ddarparwyd i aelodau'r Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/5.5** | **Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2025-26** |

Cyflwynodd CB drydydd Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd y sefydliad. Roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio mewn ymateb i adborth gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i ddarparu adroddiad mwy hygyrch a diddorol o gynnydd, arfer da a meysydd sydd angen gwelliant pellach. Roedd fersiwn ryngweithiol hefyd wedi'i datblygu i wella llywio ac ymgysylltiad.

Croesawodd TR y ddogfen a nododd ei bod yn dod â gwaith gwella ansawdd y sefydliad yn fyw.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2025-26 i'w gyhoeddi yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PHW 2026.09.24/6.1** | **Adroddiad Cadeiryddion Preifat (30 Gorffennaf 2026)** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Cadeiryddion Preifat.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/6.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |

**Nododd** y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/6.3** | **Papurau Preifat y Bwrdd** |

Nid oedd unrhyw bapurau o agenda Preifat y Bwrdd i'w cyhoeddi.

| | |
|---|---|
| **PHW 2026.09.24/7** | **Dyddiad Cyfarfod ffurfiol nesaf y Bwrdd** |

Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

**Unrhyw Fater Arall:**
Dim.

**Cyfarfod ffurfiol nesaf y Bwrdd:**
26 Tachwedd 2026

Daeth y cyfarfod i ben am 14:34

Heb eu cadarnhau